

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Perfformiad

Dyddiad: 25 Ionawr 2018

Rhif Union: 01824 712554

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 1 CHWEFROR 2018 am 10.00 am yn CONFERENCE ROOM 1A, COUNTY HALL, RUTHIN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

CYNHELIR SESIWN BRIFFIO AR GYFER YR AELODAU ETHOLEDIG A'R AELODAU CYFETHOLEDIG AM 9.00 A.M. YN UNION O FLAEN Y CYFARFOD

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 07 Rhagfyr 2017 (copi ynghlwm).

5 CANLYNIADAU ARHOLIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 4 WEDI EU GWIRIO (Tudalennau 17 - 36)

Ystyried cyd-adroddiad gan y Prif Reolwr Addysg ac Arweinydd Uwchradd GwE (copi ynghlwm) sy'n darparu gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad ysgolion Sir Ddinbych yn arholiadau allanol Cyfnod Allweddol 4 ac ôl 16.

10:05 a.m. - 10:45 a.m.

6 CWNION PERFFORMIAD EICH LLAIS (CH3) (Tudalennau 37 - 54)

Archwilio gwybodaeth (copi ynghlwm) am berfformiad gwasanaethau wrth gydymffurfio â gweithdrefn gwyno'r Cyngor.

10:45 a.m. – 11:15 a.m.

EGWYL

11:15 a.m. – 11:25 a.m.

7 GWASANAETH A REOLIR AR GYFER DARPARU GWEITHWYR ASIANTAETH (Tudalennau 55 - 86)

Ystyried cyd-adroddiad gan Reolwr Gweithrediadau'r Gyfraith a Chaffael a Rheolwr Categori (Gwasanaethau Proffesiynol) Gwasanaeth Caffael Cydweithredol (copi ynghlwm) ar yr ymarfer caffael a gynhaliwyd ynghylch gwasanaeth a reolir ar gyfer darparu gweithwyr asiantaeth ar gyfer y Cyngor, gan gynnwys dewisiadau amgen posibl, a llunio argymhelliad i'r Cabinet i benodi darparwr i gyflenwi staff asiantaeth ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor.

11:25 a.m. – 12:00 p.m.

8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 87 - 104)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi wedi'i amgáu) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

12:00 p.m – 12:15 p.m.

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar fyrddau a grwpiau amrywiol y Cyngor.

12:15 p.m – 12:30 p.m.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Huw Jones (Cadeirydd)

Ellie Chard

Ann Davies

Martyn Holland

Geraint Lloyd-Williams

Bob Murray

Y Cyngorydd Hugh Carson Irving (Is-Gadeirydd)

Arwel Roberts

Peter Scott

David Williams

Eryl Williams

Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5 yn unig)

Mike Hall

Kathleen Jones

David Lloyd

Gareth Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cyngorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhwng ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 7 Rhagfyr 2017 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Hugh Irving (Is-Gadeirydd), Huw Jones (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Bob Murray, Arwel Roberts, Peter Scott a David Williams

Roedd yr Aelodau Arweiniol, Brian Jones a Richard Mainon, yn bresennol ar gais y Pwyllgor.

Roedd yr Aelodau Arweiniol, Julian Thompson-Hill a Tony Thomas, hefyd yn bresennol.

Arsylwr – Y Cyngorydd Emrys Wynne

Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru – Charlotte Owen

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Rheolwr Adain – Rheoli Rhwydwaith (TT), Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol (KR), Rheolwr Gwella Gwasanaethau (FA), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ).

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio, a Charlotte Owen o Swyddfa Archwilio Cymru.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Martyn Holland a'r Prif Weithredwr, Mohammed Mehmet.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017.

Materion yn codi -

Tudalen 3 – (taflen wybodaeth) Asesiadau Athrawon a Chanlyniadau Arholiadau Dros Dro – Cadarnhaodd y Cydlynnydd Archwilio ei bod hi a'r Cadeirydd wedi cwrdd â Phennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant i drafod y dewisiadau o ran gwahodd ysgolion uwchradd unigol i gyfarfodydd y Pwyllgor. Cadarnhawyd bod sesiwn hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer 29 Ionawr 2018 i wella dealltwriaeth yr Aelodau o'r rolau mewn perthynas â monitro perfformiad ysgolion. Bydd GwE ac uwch swyddogion yr Adran Addysg yn hwyluso'r sesiwn.

Eitem 6 – Rhaglen Her a Chefnogaeth newydd GwE – holodd y Cadeirydd a yw Estyn wedi ail-arolygu GwE fel y nodir yn y cofnodion. Cadarnhaodd y swyddogion bod ail-arolygiad wedi ei gynnal a bod y rheoleiddiwr yn hapus gyda'r cynnydd. Cytunodd y Cydlynnydd Archwilio i ofyn am yr adroddiad diweddaraf a'i gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD – y dylid, yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo Cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017 fel cofnod cywir.

5 DATBLYGU STRATEGAETH CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy a Phennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol adroddiad y Rheolwr Asedau Priffyrdd a Risg (a gylchredwyd ymlaen llaw) i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor am effeithiolrwydd y buddsoddiad sydd wedi ei wneud i wella a chynnal rhwydwaith ffyrdd y sir dan y Cynllun Corfforaethol blaenorol a'r strategaeth arfaethedig ar gyfer parhau i fuddsoddi yn y rhwydwaith yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol newydd. Dywedodd yr Aelod Arweiniol, ers cael ei benodi i'r Cabinet, ei fod wedi ymweld â phob ardal yn y sir i sgwrsio gyda thrigolion a busnesau am eu pryderon ynghylch materion priffyrdd penodol yn eu hardaloedd.

Drwy gyflwyniad PowerPoint bu i'r Rheolwr Asedau Priffyrdd a Risg ddarparu gwybodaeth am gyflwr presennol priffyrdd y sir a strategaeth arfaethedig y gwasanaeth ar gyfer ei gynnal a'i gadw yn y dyfodol. Yn ystod y cyflwyniad:

- Dywedwyd bod hyd ffyrdd Dosbarth A, B, C a di-ddosbarth y sir yn 1415.7km (nid yw'r tair cefnffordd wedi eu cynnwys gan mai Is-adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gostau eu cynnal a'u cadw)
- Soniwyd am y methodolegau ar gyfer asesu ac adrodd ar gyflwr priffyrdd, achosion methiannau yn y briffordd a'r gwaith ymyrraeth/atal i fynd i'r afael â methiannau ac i ddiogelu rhag dirywiad pellach. Pwysleisiwyd bod y dangosydd cenedlaethol mewn perthynas ag asesiadau cyflwr priffyrdd, a wneir drwy'r dull Scanner, yn berthnasol i 32% o ffyrdd Sir Ddinbych yn unig. O ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi datblygu ei ddull gweledol ei hun i werthuso cyflwr holl ffyrdd y sir. Mae'r dull hwn yn ddefnyddiol dros ben ar gyfer ffyrdd nad ydynt yn rhan o ddull Scanner. Dangoswyd enghreifftiau o'r dull hwn fel rhan o'r cyflwyniad a darparwyd ystadegau i ddangos sut mae cyflwr y rhwydwaith wedi gwella bob blwyddyn rhwng 2011 a 2017
- Mae cyflwr ffyrdd y sir wedi gwella a'r pryderon i'r dyfodol yw gallu ariannol y Cyngor i barhau i fuddsoddi mewn gwelliannau a gwaith atgyweirio,

prosiectau gwaith draenio a chynaliadwyedd gwaith atgyweirio yn y tymor canolog a'r hirdymor. Mae'r risg yn sgil cyfyngiadau ariannol yn gallu peryglu perfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â dangosyddion perfformiad cenedlaethol cyflwr ffyrdd.

- Y dull arfaethedig ar gyfer cyfnod y Cyngor newydd yw ceisio cadw a chynnal cyflwr presennol y rhwydwaith (o leiaf). Mae'r dull hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd lefelau presennol o gyllid cyfalaf a refeniw yn aros fel ag y maent. Bydd ffyrdd, yn sgil lefelau defnydd ac effaith y tywydd, yn dirywio'n barhaus. Fodd bynnag, rhagwelir, drwy fabwysiadu dull ataliol i waith atgyweirio, defnyddio cyllid refeniw yn arloesol, gweithio'n agosach gyda gwasanaethau eraill a gwneud trefniadau priodol er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael, y bydd y Cyngor yn gallu cadw'r rhwydwaith fel y mae yn ei gyflwr presennol.
- Byddwn yn gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau gwnaeth yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion perthnasol y sylwadau canlynol:

- Eglurwyd yr anawsterau technegol wrth osod y lefelau cywir wrth ail-osod gylliau fel rhan o waith cynnal a chadw priffyrdd
- Pwysleisiwyd bod yn rhaid i'r Cyngor fuddsoddi yn ei rwydwaith priffyrdd neu mi fydd yr holl welliannau dan Gynllun Corfforaethol 2012-17 yn cael eu colli
- Cadarnhawyd y byddant yn parhau i lobio Llywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr. Yn y cyfamser mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gadw ffyrdd mewn cyflwr 'diogel' i sicrhau diogelwch y defnyddwyr.
- Cadarnhawyd bod yr amcangyfrif cost yn Atodiad 1 yn cynnwys yr holl gostau sy'n ymwneud â gwaith cynnal a chadw priffyrdd, gan gynnwys costau paratoi a chostau sy'n gysylltiedig â gwaredu deunyddiau gwastraff
- Eglurwyd bod rhywfaint o'r gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud yn fewnol ond bod y rhan fwyaf yn cael ei wneud gan gontractwyr preifat ar restr y Cyngor o gontractwyr cymeradwy. Gan fod y contractwyr hyn ar y fframwaith mae eu gwaith dan warant a byddai unrhyw broblem yn cael ei ddatrys dan eu cytundeb gyda'r Cyngor. Mae'r fframwaith yn darparu sicrwydd ansawdd i'r Cyngor.
- Mae gofyn i gwmnïau gwasanaeth cyhoeddus roi rhybudd ymlaen llaw i'r Cyngor os ydynt yn bwriadu gwneud unrhyw waith sy'n golygu cloddio'r briffordd. Mae ganddynt hefyd rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau eu bod yn gadael y briffordd yn ei chyflwr gwreiddiol ar ôl gorffen eu gwaith. I sicrhau bod yr holl ofynion yn cael eu bodloni bydd swyddogion y Cyngor yn archwilio cyflwr y briffordd ddwywaith ar ôl i'r cwmni orffen y gwaith. Ar y cyfan, mae cyflwr ffyrdd ar ôl gwaith cwmnïau gwasanaeth cyhoeddus yn well na'u cyflwr cyn i'r gwaith ddechrau.
- Cadarnhawyd bod modd i gwmnïau gwasanaeth cyhoeddus ail-wynebu ffordd ar ôl gwaith gydag arwynebedd dros dro am hyd at chwe mis h.y. oherwydd cost asffalt. Gallan nhw wedyn swmp-brynu'r deunydd i'w ddefnyddio ar gyfer sawl prosiect sy'n rhoi mwy o werth am arian iddynt, ac felly mae'n fwy economaidd iddynt gwblhau nifer o brosiectau ar yr un pryd

- Eglurwyd mecanwaith arolygu SCRIM ar gyfer mesur gwrthiant sgidio ar ffyrdd, ac amlygwyd nifer o brosiectau cynnal a chadw lle'r oedd y dull hwn yn ddefnyddiol iawn
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd ansawdd y broses 'cau uniadau' wrth ymgymryd â gwaith cynnal a chadw er mwyn atal dirywiad pellach yn ffabrig y briffordd
- Cadarnhawyd y byddai amserlenni gwaith cynnal a chadw priffyrdd lleol yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd y Grwpiau Ardal Aelodau perthnasol. Mae amserlenni gwaith yn cael eu llunio yn seiliedig ar y risgiau i ddefnyddwyr y ffordd. Hefyd, mae gyliau a ffosydd yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer clirio a gwagio yn seiliedig ar y risg i breswylwyr, busnesau a difrodi i'r briffordd
- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod hawliadau trydydd parti yn erbyn yswiriant y Cyngor oherwydd difrod a achoswyd yn sgil cyflwr ffyrdd yn fychan iawn. Anaml iawn y mae'n rhaid i gwmni yswiriant y Cyngor dalu allan i hawlwr trydydd parti. Mae'r sefyllfa yn un debyg o ran llwybrau, palmentydd a llwybrau troed. Fodd bynnag, nid ydynt yn ffurfio rhan o'r strategaeth arfaethedig ar gyfer Cynnal a Chadw Priffyrdd, byddai'r gwaith cynnal a chadw hwn yn amodol ar gais ariannol i'r Grŵp Buddsoddi Strategol.
- Cadarnhawyd y byddai swyddogion Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn gwneud pob ymdrech i weithio gyda staff Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a datblygwyr i gael y budd mwyaf i'r Cyngor, y gwasanaeth a'r rhwydwaith ffordd yn gyffredinol drwy sicrhau cytundebau Adran 278 effeithiol gyda cheisiadau cynllunio
- Cynghorwyd bod cyrbau isel bellach yn cael eu hystyried fel mater o drefn pan fo angen gwneud unrhyw waith cynnal a chadw, gyda chyrbau isel yn cael eu creu pan fo'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny
- Yn ystod ymarfer 'Sgwrs y Sir' i dderbyn barn preswylwyr am y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Lles newydd, mai ychydig iawn o bobl a soniodd am gyflwr ffyrdd y sir. Mae hyn o bosibl yn dangos bod preswylwyr ar y cyfan yn fodlon ar eu cyflwr
- Anogwyd Aelodau i roi gwybod am unrhyw broblem sy'n cael ei dwyn i'w sylw o ran cyflwr priffyrdd, gyliau a ffosydd ac ati, sydd angen gwaith cynnal a chadw neu glirio/gwagio ac ati, drwy gysylltu â Chanolfan Gwasanaethau i Gwsmeriaid y Cyngor, a fydd wedyn yn atgyfeirio'r broblem i'r gwasanaeth

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn credu y dylid cysylltu â Llywodraeth Cymru i ofyn am gymorth ariannol i ymgymryd â sawl prosiect gwella priffyrdd. Mae rhai prosiectau eisoes wedi eu cwmpasu a'u dylunio ond, oherwydd cyfyngiadau ariannol, yn amhosibl eu cyflawni yn y tymor byr a chanolig. Teimlodd y Pwyllgor y dylid gwahodd Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth i gwrdd â'r Pwyllgor yn y flwyddyn newydd i drafod cyllid priffyrdd ar gyfer y sir.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn credu y dylai datblygiad ffordd osgoi Llanelwy ymddangos ar raglen prosiectau'r Cyngor, oherwydd y byddai hyn yn gysylltiad hanfodol rhwng gogledd a de'r sir a fyddai'n cefnogi datblygiad yr economi ar draws y sir gyfan ac yn gwella incymau a ffyniant. Er bod y swyddogion yn cytuno â'r angen am y ffordd gyswllt bwysig hon, bu iddynt rybuddio Aelodau y gallai ardal

arwyneb ffordd ychwanegol gynyddu rhwymedigaethau ariannol a chyfreithiol y Cyngor o ran cynnal a chadw.

Cytunodd y swyddogion y byddai'n fuddiol rhoi gwybod i breswylwyr bod cyflwr ffyrdd y sir wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diweddar. Teimlwyd y byddai'n fuddiol petai hyn yn cael ei wneud fesul prosiect, gan ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra ac egluro pam bod y gwaith yn cael ei wneud a'r buddion tymor hir ar gyfer preswylwyr a'r sir gyfan.

Ar ddiwedd y drafodaeth canmolodd y Pwyllgor y cynnig i ddatblygu strategaeth cynnal a chadw priffyrdd ar gyfer cyfnod y Cyngor newydd. Wrth gefnogi'r cynnig amlygwyd pryderon ynghylch ansawdd yr Asesiad o'r Effaith ar Les a gynhaliwyd ar y cynnig. Er bod yr Aelodau yn teimlo bod 'canlyniadau cadarnhaol' y cynnig wedi eu hasesu'n drylwyr, nid oeddynt yn credu bod digon o sylw wedi ei roi i'r 'canlyniadau negyddol anfwriadol', ac felly nad oedd yr asesiad yn hollol cyfannol. Bu i'r swyddogion gydnabod hyn a chadarnhau y byddent yn diweddarau'r asesiad yn rheolaidd wrth i'r strategaeth a'r prosiectau cysylltiedig ddatblygu.

PENDERFYNWYD: yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) cefnogi'r dull a gynigir gan y gwasanaeth i gydbwyso'r risg o ffyrdd yn dirywio yn erbyn yr adnoddau ariannol sydd ar gael yn ystod 2017-2022;***
- (ii) ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am gymorth ariannol ar gyfer prosiectau gwella ffyrdd penodol y mae'r Cyngor yn cael trafferth eu hariannu yn y sefyllfa ariannol galed sydd ohoni, a all effeithio ar ansawdd gyffredinol rhwydwaith ffyrdd y sir a chael effaith niweidiol ar yr economi leol;***
- (iii) gwahodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i gyfarfod y Pwyllgor i drafod cyllid ar gyfer priffyrdd Sir Ddinbych a gogledd Cymru;***
- (iv) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau. Amlygwyd y dylai Asesiadau o'r Effaith ar Les gynnwys asesiad mwy cyfannol ar effaith bosibl y cynigion, yn arbennig o ran canlyniadau negyddol anfwriadol y cynigion ar y nodau lles.***

Ar y pwynt hwn (10.45 a.m.) cafwyd toriad am 15 munud.

Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.00 a.m.

6 Cwynion Perfformiad Eich Llais (CH2)

Cyflwynodd y Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol yr adroddiad a'r atodiadau (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn absenoldeb Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol, a adawodd y cyfarfod yn fuan er mwyn mynychu cyfarfod gydag Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip yn Llywodraeth Cymru – y Gweinidog sy'n gyfrifol am seilwaith digidol, i drafod band eang gwael mewn rhai rhannau o Sir Ddinbych.

Roedd yr adroddiad a'r atodiadau yn darparu trosolwg a dadansoddiad o'r cwynion, canmoliaethau a'r awgrymiadau a dderbyniwyd gan y Cyngor dan bolisi adborth cwsmeriaid 'Eich Llais' yn ystod chwarter 2 blwyddyn adrodd 2017/18. Yn ystod y cyflwyniad tynnodd y Rheolwr Gwella Gwasanaethau sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod rhai cynghorwyr, yn anfwriadol, wedi bod yn defnyddio mecanwaith adborth cwsmeriaid 'Eich Llais' i adrodd am ymholiadau/ceisiadau am wasanaeth. O ganlyniad roedd Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata wedi ail-gyhoeddi canllawiau i gynghorwyr ynglŷn â sut i gyflwyno ymholiadau/ceisiadau am wasanaeth, gan bwysleisio pwysigrwydd dilyn y drefn gytunedig er mwyn sicrhau trywydd archwilio cyflawn mewn perthynas â phob cais/ymholiad a dderbynnir. Os dilynir y drefn gywir yna bydd modd i aelodau etholedig ddilyn cynnydd eu cais/ymholiad drwy system EMMA – y system sydd wedi ei datblygu a'i chyflwyno er budd a hwylustod i aelodau etholedig. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwella Gwasanaethau bod trafodaethau yn parhau o ran cyflwyno System Rheoli Cysylltiadau Chwsmeriaid. Mae'r Grŵp Prosiect yn datblygu cynllun gweithredu ac mae Tîm Cyfathrebu Corfforaethol y Cyngor yn rhan o'r grŵp hwnnw. Rhagwelir y bydd mwy o wybodaeth ar gael yn y flwyddyn newydd ar broses gyflwyno arfaethedig y system newydd.

Dywedodd y Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol bod y Cyngor, yn ystod ail chwarter 2017-18, wedi cyrraedd y 'trothwy rhagoriaeth' o ran delio â chwynion Cam 1 a Cham 2, gan fod pob cwyn wedi ei thrafod o fewn y terfynau amser er gwaethaf derbyn mwy o gwynion na'r chwarter blaenorol. Mae hefyd yn braf clywed bod mwy o ganmoliaethau ac awgrymiadau ar gyfer gwella wedi eu derbyn gan y cyhoedd yn chwarter 2. Mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o ddefnyddio cwynion yn gadarnhaol i wella gwasanaethau. Er y byddai cynnal perfformiad y flwyddyn ar 100% bron yn amhosibl ar gyfer cwynion Cam 1 a Cham 2, roedd y swyddogion yn hyderus y gallai'r Cyngor gyflawni 98% yn Chwarter 3, a chyfradd cyrhaeddiad blynyddol cyfartalog o 98% yn 2017-18.

Mae Atodiad 1 i'r adroddiad yn cynnwys manylion nifer o gwynion Cam 1 a Cham 2 a dderbyniwyd yn erbyn gwasanaethau unigol ynghyd â pherfformiad y Cyngor wrth ddelio â nhw yn chwarter 2, yn ogystal â dadansoddiad o'i berfformiad wrth ddelio â chwynion ar y ddau gam yn ystod cyfnod pedair blynedd.

Mae Atodiad 2 i'r adroddiad yn cynnwys ffurf arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r adroddiad ystadegol i'r Pwyllgor yn y dyfodol. Er bod rhai materion angen eu datrys o ran y ffurf newydd, mae'r mater o ran llunio graffiau ac ati yn ddwyieithog a'r wybodaeth a mewnfudir i gorff yr adroddiad wedi ei ddatrys.

Mae Atodiad 3 i'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau'r dadansoddiad annibynnol a gynhaliwyd o foddhad preswylwyr a chwsmeriaid ar eu rhyngweithiad gyda'r Cyngor a derbyn y gwasanaethau gofynnol. Mae'r wybodaeth a gesglir ar gyfer y rhan hon o'r ymarfer yn werthfawr iawn i wasanaethau ac yn eu galluogi i wella gwasanaethau a chryfhau eu dulliau cyfathrebu gyda phreswylwyr. Mae Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth TGCh i ddatblygu mecanwaith adrodd penodol i'r gwasanaeth a fyddai'n galluogi'r gwasanaeth i wella'r cyfathrebu gyda phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth ymhellach.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd y Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol a'r Pennaeth Gwella Gwasanaethau y canlynol:

- Nid yw cwynion yn erbyn ysgolion a chwynion yn ymwneud ag addysg yn dod o dan gwmpas Gweithdrefn Gwyno Gorfforaethol 'Eich Llais'. Mae'r rhain yn cael eu trin ar wahân, fel rheol gan yr ysgolion eu hunain neu Swyddog Cwynion y Gwasanaeth Addysg
- Mae cwynion y gwasanaethau cymdeithasol wedi eu trin yn unol â'r canllawiau statudol h.y. eu cydnabod o fewn dau ddiwrnod gwaith a'u datrys o fewn 10 diwrnod gwaith. Er bod proses annibynnol, bydd unrhyw bryder sy'n dod i'r amlwg fel rhan o'r broses gwynion gorfforaethol, a all olygu trosedd yn erbyn oedolion diamddiffyn, yn cael ei atgyfeirio at y Tîm Diogelu Oedolion Diamddiffyn er mwyn iddynt gynnwyl ymchwiliad brys
- Yn eu barn hwy, mae'n bosibl bod y gwelliant mewn perfformiad mewn perthynas â delio â chwynion yn ganlyniad i Aelodau a swyddogion yn ymrwymo i'r weithdrefn ac yn gweld ei gwerth ar gyfer gwella darpariaeth gwasanaeth
- Mae'r targed 10 diwrnod ar gyfer delio â chwynion yn debyg iawn i'r terfyn amser 10 diwrnod statudol ar gyfer cwynion gwasanaethau cymdeithasol, sef yr amser hiraf y dylai gymryd i ddelio ag unrhyw gŵyn. Ar y cyfan, mae cwynion yn derbyn sylw ac yn cael eu datrys o fewn 10 diwrnod gwaith
Ar hyn o bryd mae saith allan o'r naw ymgynghorydd yn y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn galluogi cwsmeriaid/preswylwyr sy'n dymuno cyfathrebu â'r Cyngor yn Gymraeg i wneud hynny ar y pwynt cyswllt cyntaf. Wedi dweud hynny, mae'n bosibl nad fel yna y bydd hi gyda'r gwasanaethau a fydd yn gyfrifol am ddatrys ymholiadau ac ati.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch rhwystredigaethau Cynghorwyr a'r cyhoedd wrth adael negeseuon ar beiriannau ateb a neb yn eu ffonio'n ôl i roi gwybod iddynt am y cynnydd neu i gydnabod derbyn yr ymholiad. Cytunodd y swyddogion i dynnu sylw pob gwasanaeth at hyn.

Cytunodd y Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol i holi pam bod perfformiad y Cyngor wedi lleihau i 60% mewn perthynas â chwynion Cam 2 a chafwyd sylw o fewn y terfynau amser yn ystod Chwarter 3 2016-17.

Ar ddiwedd y drafodaeth dywedodd y Cadeirydd bod Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol wedi gofyn i'w ddiolchiadau i'r Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol am ei waith wrth wella perfformiad mewn perthynas a delio â chwynion corfforaethol dan weithdrefn 'Eich Llais' gael eu nodi a'u cofnodi.

PENDERFYNWYD: - yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (i) derbyn yr adroddiad ar berfformiad y Cyngor wrth ddelio a chwynion, canmoliaethau ac awgrymiadau a gafwyd dan weithdrefn gwyno gorfforaethol 'Eich Llais' yn ystod Chwarter 2, 2017-18;***
- (ii) derbyn data ar ganlyniadau Ymdrech a Bodlonrwydd Cwsmeriaid Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer chwarter 2 2017-18 a sut y defnyddiwyd***

yr wybodaeth honno i wella gwasanaethau i gwsmeriaid y Cyngor a phreswylwyr.

7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynnydd Archwilio adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) a oedd yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion perthnasol.

Ceir copi o'r 'ffurflen o gynnig gan Aelod' yn Atodiad 2. Gofynnodd y Cydlynnydd Archwilio i'r Aelodau gyflwyno cynigion iddi hi. Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 3 ac mae tabl gyda chrynodeb o benderfyniadau diweddar y Pwyllgor a gwybodaeth am y cynnydd eu rhoi ar waith wedi ei gynnwys yn Atodiad 4.

Dywedodd y Cydlynnydd Archwilio bod sesiwn hyfforddiant ar graffu ar faterion addysg wedi ei threfnu ar gyfer 29 Ionawr 2018 ac anogodd bawb i geisio ei mynychu.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor benodi Aelod i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Grŵp Monitro Safonau Ysgol. Darperir gwybodaeth am gylch gorchwyl y grŵp yn Atodiad 5. Cynigiodd y Cyng. Ellie Chard y dylid penodi'r Cyng. Arwel Roberts. Bu i'r Cyng. Ann Davies hefyd fynegi diddordeb bod ar y grŵp hwn. Cafodd y ddau gynnig eu heilio ac ar ôl pleidlais, penodwyd y Cyng. Arwel Roberts i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion, gyda'r Cyng. Ann Davies yn ddirprwy iddo pan nad yw'n gallu mynychu cyfarfod.

PENDERFYNWYD –

- (i) yn amodol ar y sylwadau a'r diwygiadau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;***
- (ii) penodi'r Cynghorydd Arwel Roberts yn gynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Monitro Safonau Ysgol gyda'r Cyng. Ann Davies yn ddirprwy iddo os nad yw'n gallu mynychu cyfarfod.***

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Dywedodd y Cyng. Ann Davies ei bod wedi mynychu 'cyfarfod llwybrau ymholi' yn ddiweddar i baratoi ar gyfer cyfarfod Her Gwasanaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Dywedodd y byddai Gofalwyr Cymru, y Gwasanaeth Pwynt Mynediad Sengl ac amseroedd rhyddhau o ysbytai yn cael eu harchwilio ymhellach yn ystod y cyfarfod Her Gwasanaeth. Dywedodd Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio wrth y Cyng. Ann Davies bod 'gofalwyr' wedi eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol newydd a bod gwaith ar y gweill o ran gofalwyr yn Sir Ddinbych.

Dywedodd y Cydlynnydd Archwilio y bydd cofnodion y cyfarfodydd Her Gwasanaeth yn nodwedd reolaidd yn y Briff Gwybodaeth a ddarperir i Aelodau cyn cyfarfodydd pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r swyddogion am eu gwaith caled a dymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:55 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod:	1 Chwefror 2018
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc/ Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant
Awdur yr Adroddiad:	Prif Reolwr Addysg ac Arweinwyr Uwchradd a Chynradd GwE
Teitl:	Canlyniadau Arholiadau CA4

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Perfformiad wedi'i ddilysu o ganlyniadau i arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ôl-16. Mae'r adroddiad hefyd yn dadansoddi canlyniadau yn erbyn gwybodaeth wedi'i meincnodi a pherfformiad yn erbyn awdurdodau lleol eraill.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad ysgolion Sir Ddinbych yn arholiadau allanol 2017.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

- 3.1 yn adolygu a chyflwyno sylwadau ar berfformiad ysgolion yn erbyn y perfformiad blaenorol a'r meincnodau allanol sydd ar gael ar hyn o bryd, a nodi unrhyw feysydd posibl i'w gwella; a
- 3.2 chadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 5) fel rhan o'u hystyriaethau.

4. Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ac Ôl-16

Fe newidiodd sawl cymhwyster TGAU yn 2017, ac fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru mae cymhariaeth ar sail canlyniadau gyda blynyddoedd blaenorol yn anaddas. Yn 2017 bu cap cyfraniad 40% o unrhyw gymwysterau galwedigaethol oedd yn cyfrif tuag at ddangosyddion perfformiad allweddol L1, L2 ac L2+. O 2017, nod oedd Llenyddiaeth Cymraeg na Saesneg yn cyfrif tuag at Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg, Saesneg neu fathemateg (L2+). Atodiad 1

Bu cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 disgyblion Sir Ddinbych yn gadarn dros amser ac mae perfformiad wedi bod yn unol neu'n uwch na disgwyliadau.

Mae perfformiad Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi dangos patrwm sefydlog a chyson o wellhad yn flynyddol rhwng 2013 a 2016, o

5.3%. Yn 2017, bu gostyngiad o 8.7% o'i gymharu â gostyngiad cenedlaethol o 5.7%. Bu cydberthyniad cryf, yn unol â'r darlun cenedlaethol, rhwng gostyngiad mewn canlyniadau yn 2017 a lefel amddifadedd. Roedd gan ysgolion gyda chyfradd uwch o ddysgwyr cymwys am brydau ysgol am ddim (mae gan ddwy ysgol ar hyd yr arfordir dros 30%+) ostyngiad mwy sylweddol.

Mae perfformiad yn erbyn y prif ddangosyddion ac eithrio lefel 1 wedi bod yn dda. Mae'r pynciau craidd wedi perfformio yn unol neu'n well nag awdurdodau lleol tebyg ar sail prydau ysgol am ddim.

Mae Saesneg yn arbennig wedi perfformio'n dda, er bu mwy o ostyngiad mewn dwy ysgol, un yn ysgol sy'n draddodiadol o gyflawni'n dda. Cynhyrchodd y tair ysgol gyda darpariaeth Cymraeg Iaith Gyntaf y canlyniadau gorau erioed yn 2017 gyda 79.3%, tu hwnt i'r cyfartaleddau cenedlaethol. O ganlyniad, Sir Ddinbych yw'r awdurdod lleol sy'n perfformio orau yng Ngogledd Cymru. Cyflawnodd disgyblion eleni 58.4% mewn mathemateg neu rhifedd sy'n is na chyfartaledd Cymru o 62.5%.

Heblaw am un awdurdod wedi'i seilio ar Brydau Ysgol Am Ddim, mae'r proffil meincnodi ar brif ddangosyddion Cyfnod Allweddol 4 yn debyg, ac yn unol â'r safle disgwylidig.

Ysgolion Arbennig

Llwyddodd pob disgybl yn Ysgol Tir Morfa i ennill achrediad mewn cymwysterau a dyfarniadau a gydnabyddir yn genedlaethol. Enillodd disgyblion CA4 67 o gymwysterau lefel Mynediad CBAC o Lefel 1 i 3. Llwyddodd pob un o'r dysgwyr ôl-16 i ennill cymwysterau lefel Mynediad CBAC o Lefelau 1 i 3 hefyd. Mae disgyblion Ysgol Plas Brondyffryn yn sefyll arholiadau pan fyddant yn barod, sy'n golygu mai ychydig o ddisgyblion sy'n derbyn cymhwyster TGAU yn 15 oed a'u bod yn methu dangosydd perfformiad Llywodraeth Cymru.

Yn 2017, bu gostyngiad ym mherfformiad dysgwyr yn gymwys am brydau ysgol am ddim ar L2+ yn dilyn pedair blynedd o wella perfformiad. Mae'r awdurdod lleol yn mynd i'r afael â phryderon ar Lefel 1 drwy sicrhau bod dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn ennill y cymwysterau angenrheidiol i gyrraedd y mesur.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Yn 2017, roedd 16 o blant yng ngofal yr awdurdod lleol ym mlwyddyn 11, llwyddodd 10 o'r rhain i gael cymwysterau ffurfiol gan gynnwys 5 a enillodd Drothwy L1 ac 1 a gyflawnodd L2+. Roedd y rhan fwyaf na llwyddodd i ennill cymhwyster ffurfiol mewn llety diogel neu roedd ganddynt broblemau iechyd sylweddol. Ac eithrio'r rhai mewn llety diogel, mae pob plentyn wedi cael lle mewn coleg neu 6ed dosbarth. Mae hyn yn gyson gyda phroffil y blynyddoedd blaenorol.

Disgyblion Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol

Yn 2017, cyflawnodd 100% o ddisgyblion o Ysgol Plas Cefndy A*-G mewn Ffiseg, Addysg Grefyddol, Celfyddyd Gain a Saesneg. Cyflawnodd 83% A*-G mewn Bioleg a chyflawnodd 90.9% A8-G mewn Mathemateg. Cyflawnodd 100% o ddisgyblion oedd yn sefyll BTEC Coginio Cartref i safon pasio Lefel 2. Mae effeithiolrwydd y cyrsiau a gynigir yn dystiolaeth o'r ffaith, ar ddiwedd 2017, bod tri ar ddeg o bedwar ar ddeg o ddisgyblion oedd yn cael mynediad at y ddarpariaeth wedi diogelu lle mewn coleg. Ym mis Medi cafodd 10 o ddysgwyr leoliadau ac aeth un dysgwr i weithio. Dim ond un dysgwr sydd wedi cael eu nodi'n NEET oherwydd problemau iechyd meddwl

dwys.

Mae nifer y disgyblion blwyddyn 11 sy'n cael eu haddysgu tu allan i'r ysgol (Darpariaeth Addysg Mewn Coleg) mewn lleoliadau coleg wedi amrywio dros gyfnod o bum mlynedd (rhwng 33 a 60). Dros y cyfnod hwn roedd sawl disgybl wedi cwblhau cyrsiau, gyda'r rhan fwyaf (96%) yn cwblhau yn 2017. Nid oedd un o'r rhain 'heb fod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant' (NEET) yn 2017.

Lefel A

Mae chwech o wyth ysgol yn Sir Ddinbych yn cynnig darpariaeth ôl 16. Yn 2017, enillodd 10% o ddysgwyr ôl 16 mewn ysgolion 3A*-A, o leiaf yn eu Lefel A neu gyfwerth, mae hyn yn unol â chyfartaledd Cymru, ac ein perfformiad gorau dros y cyfnod o bum mlynedd. Mae 2017 yn dangos cynnydd o 6%, gwelliant sylweddol sy'n cael ei ailadrodd dros ein holl ddarparwyr. Dros y cyfnod treigl o bum mlynedd, mae perfformiad wedi bod yn unol â, neu ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

3A*-C, tra bo perfformiad wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru, mae'r bwlch wedi cau'n sylweddol. Mae patrwm tebyg i'w weld ar y data pwynt ehangach gyda lleihad sylweddol yn y bwlch rhwng Sir Ddinbych a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r patrwm gwella a chyfuno sefydlog hwn i'w weld ar Drothwy Lefel 3 hefyd, gyda Sir Ddinbych yn perfformio ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. **Atodiad 2**

Presenoldeb

Roedd absenoliaeth cyffredinol ymysg dysgwyr ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn 2016-17 yn 5.1%, mae hyn yn rhoi Sir Ddinbych yn y 9fed safle yng Nghymru ac yn ail yn y rhanbarth. Mae'r nifer uchel hwn ar gyfartaledd o absenoldeb anawdurdodedig (1.3%) wedi cael ei halino i bolisi a chytundeb presenoldeb penaethiaid i wneud absenoldeb gwyliau yn anawdurdodedig. **Atodiad 3**

Absenoliaeth ysgolion uwchradd yn 2016-17 oedd 6.3%, mae hyn yn gosod Sir Ddinbych yn y 17eg safle yn rhanbarth Gogledd Cymru, ac mae hwn yn faes i'w wella. **Atodiad 4**

Gwaharddiadau

Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o 1-5 diwrnod yn uwch o'i gymharu ag awdurdodau tebyg ar gyfradd o 46.6 i bob 1,000 o ddysgwyr, mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o gyfradd o 28 i bob 1,000 o ddysgwyr. Mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod yn is o'i gymharu ag awdurdodau tebyg ar gyfradd o 1.6 i bob 1,000 o ddysgwyr, mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o gyfradd o 1.7 i bob 1,000 o ddysgwyr. Nid oedd unrhyw waharddiadau parhaol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Flaenoriaeth Corfforaethol o bobl ifanc eisiau byw a gweithio yma, gyda'r sgiliau priodol i wneud hynny. Mae angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol o berfformiad yr ysgolion a'r ALL yn erbyn meincnodau cenedlaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amherthnasol

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Sir Ddinbych ffyniannus
Sir Ddinbych wydn
Sir Ddinbych iachach
Sir Ddinbych fwy cyfartal
Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol
Sir Ddinbych lle mae diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu
Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Gweler Atodiad 5.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

Amherthnasol

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Bydd yr ALL a GwE yn parhau i herio Penaethiaid a rheolwyr ysgolion i sicrhau bod yr ysgolion yn cymryd y camau gweithredu cywir er mwyn gwella safonau.

I leihau unrhyw risgiau i gefnogaeth a heriau yn ysgolion Sir Ddinbych, mae Swyddogion Addysg yn yr Awdurdod yn monitro ac yn asesu ansawdd y gwasanaeth addysg rhanbarthol (GwE).

Sicrhau gwelliant yng nghanlyniadau arholiadau allanol.

Parhau i wella yn erbyn y gostyngiad yng Ngrant Llwybrau Dysgu 14-19 a chyllid Ymagwedd Dryloyw at Gostio a Phrisio Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Adran 7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag adolygu amcanion perfformiad a pholisi.

Swyddog Cyswllt:

Prif Reolwr Addysg

Rhif ffôn: 01824 708029

Appendix 1

Denbighshire

GCSE/Level 2 School Performance - Difference between performance in 2017 & 2016

	No of pupils on roll in January	% entered at least one qualification		% achieved the Level 1 threshold		% achieved the Level 2 threshold		% achieved the Level 2 threshold including a GCSE pass in English or Welsh First Language and Mathematics		Average capped (9) wider points score per pupil. (See Notes)		Average capped (8) wider points score per pupil		Average wider points score per pupil	
		2017	2016-2017	2015-2016	2016-2017	2015-2016	2016-2017	2015-2016	2016-2017	2015-2016	2016-2017	2015-2016	2016-2017	2015-2016	2016-2017
	Rhyl High School	134	100	100	96	99	46	91	37	54	323		306	353	447
Prestatyn High School	240	100	100	96	99	68	89	53	54	347		322	348	432	455
Ysgol Glan Clwyd	158	100	100	100	100	77	98	65	70	373		346	375	521	658
Denbigh High School	96	99	100	97	99	67	74	44	56	344		323	333	470	524
Ysgol Dinas Bran	153	100	100	100	99	75	97	55	70	372		343	367	493	638
Ysgol Brynhyfryd	175	100	100	99	100	88	98	74	79	407		372	384	573	634
Blessed Edward Jones	87	100	100	84	93	28	51	21	41	247		230	296	285	388
St Brigid's	52	100	100	100	98	94	93	75	83	401		367	380	589	559
PRU	14	100	100	36	7	0	7	0	7	140		154	98	158	100
Tir Morfa	13	100	100	0	0	0	0	0	0	41		47	36	47	36
Plas Brandyfryn	8	63	57	0	0	0	0	0	0	28		28	41	28	41
EOTAS	54	94	100	2	30	0	5	0	2	69		73	135	74	144
Denbighshire	1130	99	100	90	94	64	84	50	59	334		310	340	447	526
Cymry		99	99	94	95	67	84	55	60	351		326	345	459	529

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

CHANGES TO THE PRODUCTION OF THESE STATISTICS

Several key changes have been implemented to the KS4 performance measures data in this 2016/17 academic year:

1. Introduction of the Capped 9 Score

The Capped 9 measure focuses on Year 11 pupils' results from nine of the qualifications available in Wales, including subject specific requirements.

The main changes compared to the previous capped points score are:

- An increase from eight to nine GCSEs or equivalent volume of qualifications
- The introduction of subject specific attainment requirements in English/Welsh, Mathematics – Numeracy, Mathematics and Science.

More information can be found in the Notes section.

Tudalen 23

2. Cap on non-GCSEs to threshold measures

From 2017, a maximum of two vocational (non-GCSE) qualifications will count towards all

3. Literature in threshold measures

Literature qualifications no longer count towards the literacy elements in the Level 2 inclusive or Capped 9 score from 2017 onwards, but can still count in the non-subject specific elements.

4. New Mathematics GCSEs

This is the first summer that pupils are expected to sit two GCSEs in Mathematics – GCSE Mathematics and GCSE Mathematics Numeracy.

Reporting achievement of the Welsh Baccalaureate

5. The Welsh Baccalaureate will not be published in national figures in 2017. Data on Welsh Baccalaureate has been included in this provisional SSSP so that the data can be validated. The presentation of the data in this provisional SSSP is experimental and may change by the time the final SSSP is released in December. We would be happy to receive any comments you may have on how this should be reported in the SSSP in the future.

The changes introduced in 2015/16 are listed below for ease of reference

1. Reporting school performance for 2015/16 is now based on a Year 11 cohort basis rather than for pupils aged 15 at the start of the year. The Year 11 cohort is based on the number of pupils who were registered as being on roll in Year 11 in the school on 12 January 2016, the day of the school Data for 2013/14 and 2014/15 is still based on pupils aged 15.
2. In previous years, LA figures were based on mainstream schools, special schools, independent schools and PRU's (Pupil Referral Units) and did not include those pupils who were educated other than at school (EOTAS) who did not attend a PRU. This year, this additional EOTAS data is included in the data and so will affect the LA figures. This additional data will also be included in the Wales figures.
3. KS4 performance measures for Wales previously covered all maintained and independent schools in Wales. Beginning this academic year, results for independent schools are not included in the Wales figures.
4. Note that for rolling averages, data for previous years will be based on pupils aged 15, whereas

A Level and Level 3 Thresholds & Grades

School		PLASC	No. entered 2+	Main Indicator		2016 L3	A-Level Grade													Vocational Awards					Welsh Baccalaureate - Year 13 ONLY		
				L3 2017 (2 A*-E)			A*	A	B	C	D	E	U	X	% A*	%A	% A*-A	%A*-C	%A*-E	Distinction *	Distinction	Merit	Pass	Other	Advanced	Advanced	Advanced
Number	Name	Pupils aged 17		No.	%	%	No.	No.	No.	No.	No.	No.	No.	No.	%	%	%	%	%	No.	No.	No.	No.	No.	Number participating	Number Passed	%
4014	Prestatyn High School	143	124	120	96.8	99.3	4	30	56	81	51	15	9	0	1.6	12.2	13.8	69.5	96.3	71		16	3		8	8	100.0%
4020	Ysgol Glan Clwyd	93	88	86	97.7	97.3	9	31	48	64	43	15	3	0	4.2	14.6	18.8	71.4	98.6		4	6	11		72	53	73.6%
4026	Denbigh High School	36	36	36	100.0	95.7	2	20	28	22	18	3	1	0	2.1	21.3	23.4	76.6	98.9	10	4	1	1		6	4	66.7%
4027	Ysgol Dinas Bran	62	49	49	100.0	89.7	14	15	30	29	10	7	2	0	13.1	14.0	27.1	82.2	98.1		1	9	20		15	11	73.3%
4031	Ysgol Brynhyfryd	72	72	72	100.0	97.6	18	42	52	53	24	8	0	0	9.1	21.3	30.5	83.8	100.0	5		1			55	54	98.2%
5901	St Brigid's School	42	41	41	100.0	100.0	11	20	35	30	11	8	0	0	9.6	17.4	27.0	83.5	100.0		3	0	0		0	0	-
LA Total		448	410	404	98.5%	97.1	58	158	249	279	157	56	15	-	6.0	16.3	22.2	76.5	98.5	86	12	33	35	-	156	130	83.3%

Key Stage 5 Exam Results 2017 - ALL SCHOOLS SUMMARY

Tudalen 26

2017		A-Level Grade												
School		2016 L3	A*	A	B	C	D	E	U	% A*	%A	% A*-A	%A*-C	%A*-E
Number	Name	%	No.	No.	No.	No.	No.	No.	No.	%	%	%	%	%
4014	Prestatyn High School	96.8	4	30	56	81	51	15	9	1.6	12.2	13.8	69.5	96.3
4020	Ysgol Glan Clwyd	97.7	9	31	48	64	43	15	3	4.2	14.6	18.8	71.4	98.6
4026	Denbigh High School	100.0	2	20	28	22	18	3	1	2.1	21.3	23.4	76.6	98.9
4027	Ysgol Dinas Bran	100.0	14	15	30	29	10	7	2	13.1	14.0	27.1	82.2	98.1
4031	Ysgol Brynhyfryd	100.0	18	42	52	53	24	8	0	9.1	21.3	30.5	83.8	100.0
5901	St Brigid's School	100.0	11	20	35	30	11	8	0	9.6	17.4	27.0	83.5	100.0

LA Total	98.5%	58	158	249	279	157	56	15	6.0	16.3	22.2	76.5	98.5
----------	-------	----	-----	-----	-----	-----	----	----	-----	------	------	------	------

WALES									8.3		25		97.7
-------	--	--	--	--	--	--	--	--	-----	--	----	--	------

2016		A-Level Grade												
School		2016 L3	A*	A	B	C	D	E	U	% A*	%A	% A*-A	%A*-C	%A*-E
Number	Name	%	No.	No.	No.	No.	No.	No.	No.	%	%	%	%	%
4014	Prestatyn High School	100.0	3	23	54	93	78	45	22	0.9	7.2	8.2	54.4	93.1
4020	Ysgol Glan Clwyd	96.6	8	19	53	57	33	12	3	4.3	10.3	14.6	74.1	98.4
4026	Denbigh High School	95.6	0	8	35	21	22	8	2	0.0	8.3	8.3	66.7	97.9
4027	Ysgol Dinas Bran	95.0	5	33	55	51	26	10	5	2.7	17.8	20.5	77.8	97.3
4031	Ysgol Brynhyfryd	96.7	19	55	77	49	23	1	1	8.4	24.4	32.9	88.9	99.6
5901	St Brigid's School	92.6	4	11	30	31	8	6	0	4.4	12.2	16.7	84.4	100.0

LA Total	97.1	54	108	238	218	124	63	8	6.6	13.3	19.9	76.0	99.0
----------	------	----	-----	-----	-----	-----	----	---	-----	------	------	------	------

Appendix 3

% Half-day sessions attended - Denbighshire Primary Schools

Colour Flagging

	% increase for 2 years running
	% decrease for 2 years running

School Name	% half-day sessions attended				
	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Bodnant Community Primary School	94.6	95.0	94.5	95.0	94.6
Christ Church Primary School	93.6	93.6	93.8	94.8	94.5
Frongoch Juniors	95.2	95.4	95.2	95.5	95.8
Rhos Street Cp School	94.1	95.4	95.6	95.4	95.5
St Asaph Infants School	93.2	94.5	95.4	94.0	95.0
St Brigid's School	94.4	95.4	94.8	95.1	95.5
Ysgol Betws Gwerful Goch	94.3	95.9	95.8	95.6	96.3
Ysgol Bodfari	95.5	95.8	95.1	97.0	98.2
Ysgol Borthyn	93.8	94.3	93.2	94.1	93.7
Ysgol Bro Cinmeirch	96.1	96.7	96.7	97.0	96.9
Ysgol Bro Elwern	93.2	95.4	94.5	95.2	95.7
Ysgol Bro Famau	95.9	96.4	95.8	96.3	96.5
Ysgol Bryn Clwyd	93.5	95.5	94.9	94.5	96.4
Ysgol Bryn Collen	94.6	94.4	94.8	95.3	95.4
Ysgol Bryn Hedydd	94.5	94.9	94.8	95.3	95.6
Ysgol Caer Drewyn	95.0	94.7	93.0	95.2	95.2
Ysgol Carreg Emlyn	94.8	96.6	96.9	96.5	97.5
Ysgol Carrog	95.9	96.0	95.9	96.1	96.5
Ysgol Cefn Meiriadog	94.7	96.3	95.2	96.1	94.9
Ysgol Clawdd Offa	91.2	93.2	93.5	94.7	94.2
Ysgol Dewi Sant	94.9	95.5	95.1	94.8	93.8
Ysgol Dyffryn Ial	96.3	97.2	97.0	95.0	97.3

Ysgol Emmanuel	93.1	92.5	93.0	93.7	93.6
Ysgol Esgob Morgan	94.8	94.7	95.6	96.6	96.3
Ysgol Gellifor	95.5	95.8	95.1	96.7	96.4
Ysgol Gymraeg Y Gwernant	96.2	96.1	95.8	96.1	95.8
Ysgol Henllan	94.1	95.1	96.4	96.7	97.6
Ysgol Hiraddug	95.1	96.0	95.3	95.5	95.0
Ysgol Llanbedr	94.8	95.0	94.7	96.1	95.5
Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd	95.0	96.5	96.6	96.1	96.7
Ysgol Llywelyn	93.3	94.2	93.8	94.3	93.5
Ysgol Mair Catholic Primary School	92.3	93.7	93.4	93.4	93.1
Ysgol Melyd	94.5	94.8	94.6	95.8	94.7
Ysgol Pant Pastynog	95.3	96.8	96.5	96.5	97.1
Ysgol Pen Barras	96.6	96.3	96.3	96.7	96.9
Ysgol Pendref	93.5	93.8	94.1	95.1	95.5
Ysgol Penmorfa Cp	93.7	94.3	93.5	93.1	92.8
Ysgol Pentrecelyn	94.8	97.2	95.2	96.7	97.5
Ysgol Rhewl	95.8	96.7	96.1	95.9	94.8
Ysgol Trefnant	95.0	96.1	96.4	95.9	96.2
Ysgol Tremeirchion	95.6	96.5	96.5	96.8	96.3
Ysgol Twm o'r Nant	95.4	96.2	96.9	95.9	96.3
Ysgol Y Castell Cp	94.2	94.5	94.7	95.4	95.4
Ysgol Y Faenol	94.5	94.3	94.9	95.4	94.6
Ysgol Y Llys	94.4	94.9	94.7	95.1	95.6
Ysgol Y Parc	93.6	95.1	96.0	95.9	95.9
Ysgol_Bro_Dyfrdwy	96.2	95.3	96.2	96.3	95.9

Appendix 4

% Half-day sessions attended – Denbighshire Secondary Schools

Colour Flagging

	% Above modelled expectation
	% Below modelled expectation

School Name	% half-day sessions attended					Modelled	Diff
	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17		
Blessed Edward Jones High Sch	90.5	90.0	#NAME?	91.6	88.2	91.5	-3.3
Denbigh High School	92.5	93.1	93.3	92.6	93.2	94.1	-0.8
Prestatyn High School	92.0	92.4	92.0	93.0	93.1	93.9	-0.8
Rhyl High School	91.4	91.4	91.5	92.4	92.7	92.2	0.4
St Brigid's School	93.6	94.8	95.0	95.0	95.5	95.3	0.2
Ysgol Brynhyfryd	94.1	94.3	94.6	95.9	95.6	95.5	0.2
Ysgol Dinas Bran	92.3	92.8	93.0	94.0	94.6	94.6	0.1
Ysgol Uwchradd Glan Clwyd	93.1	95.1	94.7	95.1	94.7	95.4	-0.7

Teacher Assessments and provisional examination results 2017

Wellbeing Impact Assessment Report

This report summarises the likely impact of a proposal on the social, economic, environmental and cultural well-being of Denbighshire, Wales and the world.

Assessment Number:	293
Brief description:	Teacher Assessments and provisional examination results September 2017
Date Completed:	14/09/2017 13:30:44 Version: 2
Completed by:	Julian Molloy
Responsible Service:	Education & Children Services
Localities affected by the proposal:	Whole County,

IMPACT ASSESSMENT SUMMARY AND CONCLUSION

Before we look in detail at the contribution and impact of the proposal, it is important to consider how the proposal is applying the sustainable development principle. This means that we must act "in a manner which seeks to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Score for the sustainability of the approach

Could you do more to make your approach more sustainable?




(2 out of 4 stars)

Actual score : 11 / 24.

Summary of impact

Wellbeing Goals



A globally responsible Wales	A prosperous Denbighshire	Negative
A Wales of vibrant culture and thriving Welsh Language	A resilient Denbighshire	
A Wales of cohesive communities	A healthier Denbighshire	Positive
A more equal Wales	A more equal Denbighshire	Neutral
A healthier Wales	A Denbighshire of cohesive communities	Neutral
	A Denbighshire of vibrant culture and thriving Welsh language	Positive
	A globally responsible Denbighshire	

Main conclusions

After 5 years of improving teacher assessments and examination results, the decline in results this year will impact negatively on young people progressing to higher education and high quality employment in Denbighshire.

THE LIKELY IMPACT ON DENBIGHSHIRE, WALES AND THE WORLD

A prosperous Denbighshire

Overall Impact	Negative
Justification for impact	This years teacher assessments and examination results are below expected levels which negatively impacts on young people chances of gaining the skills and further qualifications needed to meet their's and Denbighshire's aspirations.

Positive consequences identified:

Children leave schools with the skills and qualifications to successfully contribute to the economy of Denbighshire
Children leave schools with the skills and qualifications to access high quality employment opportunities in Denbighshire
Children leave schools with the skills and qualifications to successfully progress to further education or employment..

Unintended negative consequences identified:

Children leave schools without the skills and qualifications to successfully contribute to the economy of Denbighshire
Children leave schools without the skills and qualifications to successfully progress to further education or employment..

Mitigating actions:

Work with and closely monitor GwE and schools to measure progress and performance

A resilient Denbighshire

Overall Impact	
Justification for impact	

Positive consequences identified:

Unintended negative consequences identified:

Mitigating actions:

A healthier Denbighshire

Overall Impact	Positive
Justification for impact	Estyn inspection report indicate that most Denbighshire schools provide good support for their pupils that contributes to their learning.

